Cynhadledd Gefeillio – Caerdydd a Stuttgart

Dydd Iau 14 a dydd Gwener 15 Ionawr 2016

Mae Gefeill-ddinasoedd Caerdydd a Stuttgart yn trefnu cynhadledd ddeuddydd thematig ym mis Ionawr sy'n cynnwys dinasyddion a sefydliadau o'r ddwy ddinas. Y nod yw hyrwyddo hanes y ddwy ddinas i weld sut y gallem adeiladu arno a datblygu ymhellach gydweithrediad ar draws ffiniau a chynnwys dinasyddion. Byddwn hefyd yn ystyried agweddau gwahanol ar integreiddio Ewropeaidd a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd; sut mae barn yn amrywio ar draws y ddwy ddinas ac ar draws demograffeg wahanol?

Dydd Iau 14 Ionawr yn Neuadd y Ddinas, Ystafell Bwyllgor D, Caerdydd

11:00am:	Cyfarwyddiadau a Chyflwyniadau gan Gareth Berry
11:05am:	Croeso gan y Cynghorydd Bale, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd
11:10am:	Cyflwyniad ar Ddinas Stuttgart ac yna sesiwn Holi ac Ateb - Frederic
11:20am:	Cyflwyniad ar Ddinas Caerdydd a sesiwn Holi ac Ateb – Jonathan Day
11:30am:	Siaradwr 1: Jan Hoppe: Busnes yn Ewrop: Cyfleoedd a Heriau
12:00pm:	Cyfranogwyr o bob grŵp oedran yn cyflwyno eu huchafbwyntiau am eu dinas
12:30pm:	Gwib-rwydweithio
1:00pm:	Cinio Bwffe yn Neuadd y Ddinas
2:00pm-5:30pm:	Ffotomarathon y Ddinas
6:30pm:	Sgwrs gan Uli Hesser, gwneuthurwr ffilmiau o'r Almaen, mewn Partneriaeth â Chymdeithas Caerdydd-Stuttgart
7:30pm:	Cinio Nos yng Ngwesty Park Inn

Dydd Gwener 15 Ionawr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Dumballs Road, Caerdydd

09:00am:	Croeso i Ddiwrnod 2, curadur: Tradebox Media
09:10am:	Siaradwr 1: Alena Drieschova: Sefydliadau Ewropeaidd, Cynnwys Dinasyddion a'r Diffyg Democrataidd
9:40am:	Siaradwr 2: Christian Bueger: Byw, Astudio a Gweithio yn Ewrop
10:10am:	Paned
10:30am:	Sesiwn 1: Dan arweiniad Tradebox Media, ar ôl sgwrs Alena a Christina
12:30pm:	Cinio yn 'Y Dosbarth'
2:00pm:	Siaradwr 3: Jonathan Kirkup: Hunaniaeth a Dinasyddiaeth Ewropeaidd
2:30 – 4:30pm:	Sesiwn 2: Dan arweiniad Tradebox Media, ar ôl sgwrs Jonathan
7:00pm:	Pryd a diodydd gyda'r nos

Diwrnod 3: Dydd Sadwrn 16 Ionawr

9:00am: Dirprwyaeth Stuttgart i ymweld â Phwll Mawr, Amgueddfa Lofaol Cymru

Pwll Mawr: Mae Amgueddfa Lofaol Cymru yn amgueddfa treftadaeth ddiwydiannol ym Mlaenafon, Torfaen, De Cymru. Yn lofa o 1860 i 1980, fe'i hagorwyd i'r cyhoedd ym 1983 fel rhan o Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r safle'n ymrwymedig i ddal ati i arddangos glofa weithiol yn y dull Cymreig, fel yr oedd yn y Chwyldro Diwydiannol.

Cynhadledd Gefeillio – Caerdydd a Stuttgart

Dydd Iau 14 a dydd Gwener 15 Ionawr 2016

Siaradwyr

Jan Hoppe

Mae Jan yn gyfreithiwr cymwys yng Nghymru a Lloegr a hefyd yn dwrnai Almaenaidd ("Rechtsanwalt"). Mae ei arbenigedd yn cwmpasu blynyddoedd lawer o gynghori cwmnïau ac unigolion yn y wlad hon a thramor o ran trafodion M&A corfforaethol, yn aml yn cynnwys elfen ryngwladol, strwythurau corfforaethol y DU, contractau masnachol, gan gynnwys asiantaethau, dosbarthu a chyflenwi yn ogystal â datblygu ac allgyrchu meddalwedd. Mae hefyd yn rhoi cyngor rheolaidd ar gyfraith cystadlu'r UE a'r DU a chyfuno cwmnïau ar draws ffiniau. Mae ei gleientiaid yn cynnwys rhai cwmnïau mawr ac enwau rhyngwladol, yn ogystal â BBaChau ac entrepreneuriaid unigol.

Dr Alena Drieschova

Mae ymchwil Alena Drieschova'n ymwneud â methodoleg ansoddol theori perthnasau rhyngwladol, hanes Ewropeaidd, prosesau integreiddio Ewropeaidd, a llywodraethu amgylcheddol. Mae gan Alena radd Meistr o Brifysgol Rhydychen (gydag anrhydedd) a chan Brifysgol Economeg Prâg (gydag anrhydedd). Roedd yn ysgolor ymweld yn y Sefydliad Rheoli Dŵr Rhyngwladol yn Sri Lanka, Prifysgol Hebraeg Jerwsalem, a Phrifysgol Talaith Oregon. Mae wedi ennill sawl gwobr ariannol gan Brifysgol Toronto a Phrifysgol Economeg Prâg, ac Ysgoloriaeth Graddedigion Ontario. Mae ei gwaith wedi'i gyhoeddi mewn ystod o gyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid, gan gynnwys Global Environmental Change, Climatic Change ac International Environmental Agreements: Politics, Law, and Economics. Cafodd y gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd ei gydnabod gan y Wobr Papurau Myfyrwyr Graddedig Gorau gan Is-adran Theori'r Gymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol, a chan Is-adran Cymdeithaseg Wleidyddol Ryngwladol y Gymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol.

Dr. Christian Bueger

Mae Christian Bueger yn Ddarllenydd mewn Perthnasau Rhyngwladol yn yr Adran Gwleidyddiaeth a Pherthnasau Rhyngwladol, Prifysgol Caerdydd. Ymunodd â Chaerdydd fel Darlithydd yn 2012. Cafodd PhD mewn Gwyddorau Gwleidyddol a Chymdeithasol o'r Sefydliad Prifysgol Ewropeaidd, Fflorens, yr Eidal (2010). Ymhlith y meysydd y mae'n ymwneud â nhw mae Astudiaethau Diogelwch, Cymdeithaseg Wleidyddol Ryngwladol, Sefydliadau Rhyngwladol a Chymdeithaseg Gwyddoniaeth ac Arbenigedd. Mae wrthi'n ymchwilio i ddiogelwch morol a llywodraethiant byd-eang yn y project "Llywodraethu Gwrth-forladrad – Dadansoddiad Pracsiograffig" a ariennir gan y grant Future Research Leader gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DU [ES/L008358/1]. Mae hefyd yn un o brif ymchwilwyr y Consortiwm Gwersi a Ddysgwyd yn y Grŵp Cyswllt ar Forladrad oddi ar arfordir Somalia. Mae'n gydolygydd ar rifyn nesaf y Cyfnodolyn Ewropeaidd ar Ddiogelwch Rhyngwladol (GP Caergrawnt, 2016) ac yn gydolygydd Practy.studies.org – Y Porthol Ymchwil ar gyfer Diogelwch Morol. Mae ei ymchwil wedi bod drwy gyfryngau gwahanol, er enghraifft ar ITV, The Guardian, Africa Renewal, Veja a The New Internationalist.

Dr. Jonathan Kirkup

Ymunodd Jonathan Kirkup â staff Prifysgol Caerdydd yn 2013 ar ôl gweithio'n flaenorol yn y sector preifat. Roedd yn gydymaith cyswllt ym Mhrifysgol Heidelberg yn ymchwilio i brosesau llunio polisi ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol yn y DU ac yn yr Almaen. Mae ei ddiddordebau ymchwil ac addysgu'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth Brydeinig ac Ewropeaidd a pholisi cyhoeddus yn ogystal ag economi wleidyddol Ewrop. Mae ganddo ddiddordeb arbennig yn neinameg trawsbleidiol pleidiau llywodraethol a gwrthbleidiau a sut y mae'r rhain yn effeithio ar lunio, datblygu a gweithredu polisïau. Mae wedi cyhoeddi gwaith ar ffurfio clymbleidiau a ffurfio llywodraethau, yn benodol i ymchwilio i gytundebau hyder a chyflenwi. Ar hyn o bryd mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar weithrediad craidd a rôl a chyfrifoldebau'r dirprwy brif weinidog. Ef yw cynullydd Grŵp Arbenigol Rhyddfrydwyr a Rhyddfrydiaeth y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol. Fel rhan o'r rôl hon cafodd arian grant i drefnu gweithdai a chynadleddau ar feddylfryd Rhyddfrydol, gwleidyddiaeth bleidiol a pholisïau.